OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

2006 Rhif 615 (Cy.68)

LLYWODRAETH LEOL, CYMRU

Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006

Wedi'i wneud	- -	*7 Mawrth 2006*
Yn dod i rym	- -	*1 Ebrill 2006*

Mae Cynulliad Cenedlaethol Cymru, drwy arfer y pwerau a roddwyd iddo gan adrannau 5(2), 6(3), 7(6) a 29(1) o Ddeddf Llywodraeth Leol 1999(**1**), drwy hyn yn gwneud y Gorchymyn a ganlyn:

Enwi, cychwyn, dehongli a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Llywodraeth Leol (Cynlluniau Gwella) (Cymru) 2006 a daw i rym ar 1 Ebrill 2006.

(2) Yn y Gorchymyn hwn—

ystyr "cynllun gwella" ("*improvement plan*") yw cynllun perfformiad gwerth gorau o fewn ystyr "best value performance plan" yn adran 6(1) o'r Ddeddf; ac

ystyr "y Ddeddf" ("*the Act*") yw Deddf Llywodraeth Leol 1999.

(3) Mae'r Gorchymyn hwn yn gymwys i awdurdodau gwerth gorau yng Nghymru ac eithrio'r rhai a bennir yn adran 1(1)(d) ac (e) o'r Ddeddf.

Y dyddiad ar gyfer cyhoeddi cynlluniau gwella

2. Rhaid i awdurdodau gwerth gorau gyhoeddi eu cynllun gwella am flwyddyn ariannol erbyn 31 Hydref o'r flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

Y dyddiad ar gyfer anfon copïau o adroddiadau archwilwyr

3. Rhaid i gopïau o adroddiad archwilydd ynghylch cynllun gwella gael ei anfon yn unol ag adran 7(5) o'r Ddeddf erbyn 30 Tachwedd o'r flwyddyn y mae'r cynllun yn berthnasol iddi.

Dirymu

4. Dirymir y gorchmynion canlynol—

(**1**) 1999 p.27.